ATODLEN 1

# RHAN 2

## Gweithfeydd Pellach

### PENNOD 1

(1) Caiff yr ymgymerwr o fewn terfynau'r Gorchymyn ar y môr adeiladu, cynnal a chadw a gweithredu'r cyfryw weithfeydd canlynol ag sy'n angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw, ailbweru a datgomisiynu'r gweithfeydd llanwol, neu at ddibenion ategol, sef—

(a) angorfeydd dros dro neu barhaol neu fodd arall i ddarparu ar gyfer cychod a llongau wrth adeiladu neu gynnal a chadw'r gweithfeydd awdurdodedig;

(b) bwiau, goleuadau, ffenders a gweithfeydd eraill sy'n rhoi rhybuddion mordwyol neu'n diogelu rhag trawiadau â llongau;

(c) gwaith i newid lleoliad cyfarpar, gan gynnwys ceblau;

(d) y cyfryw weithfeydd a chyfarpar, offer a pheiriannau eraill o ba natur bynnag y bo ag sy'n angenrheidiol neu'n hwylus.

(2) Caiff yr ymgymerwr o fewn terfynau'r Gorchymyn ar y tir adeiladu, cynnal a chadw a gweithredu'r cyfryw weithfeydd canlynol ag sy'n angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw, ailbweru a datgomisiynu'r gweithfeydd ar y tir, neu at ddibenion ategol, sef—

(a) gwaith tirlunio a sgrinio;

(b) caeadleoedd a mannau storio;

(c) creu pyllau tynnu ar gyfer llwybr y ceblau ar y tir;

(d) mannau arwyneb caled ar gyfer cyd-gilfachau trosglwyddo;

(e) cysylltiadau â'r rhwydwaith ffonau a'r rhwydwaith dŵr;

(f) gweithfeydd er budd y tir y mae'r gweithfeydd awdurdodedig yn effeithio arno neu er mwyn diogelu'r tir y mae'r gweithfeydd awdurdodedig yn effeithio arno;

(g) gwaith i newid lleoliad cyfarpar, gan gynnwys ceblau; neu

(h) y cyfryw weithfeydd a chyfarpar, offer a pheiriannau eraill o ba natur bynnag y bo ag sy'n angenrheidiol neu'n hwylus.

### PENNOD 2

Heb ragfarnu cyffredinolrwydd Pennod 1 uchod caiff yr ymgymerwr o fewn y tir a bennir yng ngholofn (2) o'r tabl isod adeiladu'r gweithfeydd a grybwyllir yng ngholofn (3)

| *(1)*<br>*Ardal* | *(2)*<br>*Rhif y parsel o dir a ddangosir ar blaniau'r tir* | *(3)*<br>*Disgrifiad o'r Gweithfeydd* |
|---|---|---|
| Sir Ynys Môn | 10 | Is-orsaf drydanol sy'n cynnwys—<br>— is-orsaf drydan ag offer awyru ac oeri cysylltiedig;<br>— cebl sy'n cysylltu'r is-orsaf â'r ceblau allforio sy'n rhan o Waith Rhif 6 a Gwaith Rhif 7; |

| *(1)*<br>*Ardal* | *(2)*<br>*Rhif y parsel o dir a ddangosir ar blaniau'r tir* | *(3)*<br>*Disgrifiad o'r Gweithfeydd* |
|---|---|---|
| | | — adeilad ar wahân ar gyfer cyfarpar a ddefnyddir i storio ynni trydanol;<br>— swyddfeydd a chyfleusterau lles cysylltiedig;<br>— caeadle adeiladu;<br>— pyllau ar y cyd cysylltiedig â mannau arwyneb caled;<br>— maes parcio, â mannau gwefru cerbydau trydan; ac<br>— adeiladu gweithfeydd mynediad o Ffordd Ynys Lawd. |
| Sir Ynys Môn | 38a | Seilwaith gan gynnwys gweithfeydd cysylltu'r grid â'r rhwydwaith dosbarth ac sy'n cynnwys—<br>— hyd at 6 chebl allforio ar gyfer trawsyrru trydan a hyd at 2 gebl cyfathrebu;<br>— adeilad offer switsio ac anecs mesur cysylltiedig. |
| Sir Ynys Môn | 48, 49 a 50 | Gweithfeydd cysylltu'r grid â'r rhwydwaith trydan presennol sy'n cynnwys—<br>— hyd at 6 chebl allforio ar gyfer trawsyrru trydan a hyd at 2 gebl cyfathrebu;<br>— hyd at 4 adeilad;<br>— systemau storio ynni gyda seilwaith cysylltiedig;<br>— ceblau ar gyfer trawsyrru trydan;<br>— ceblau cyfathrebu;<br>— cilfach gysylltu sy'n cynnwys–<br>— ynysyddion;<br>— torwyr cylchedau;<br>— cyfarpar cyflyru pŵer. |